Gweiddi

# Tasg 2

**(Estynnol, sbardun 2)**

**Trafod:**

1. Roedd llawer o ffatrïoedd gwneud dillad yn arfer bod yng Nghymru, ond mae'r rhan fwyaf wedi cau erbyn hyn. Pam mae cwmnïau ffasiwn wedi symud y gwaith i wledydd fel Bangladesh?

2. Ydy'r darn darllen wedi newid eich barn am brynu dillad ffasiynol rhad? Pam? / Pam lai?

3. Beth mae pawb yn gallu ei wneud i helpu'r bobl sy'n gwneud ein dillad ni? Ai peidio â phrynu'r dillad yw'r ateb gorau?

4. Ydych chi'n gwybod am unrhyw ffatri/adnabod unrhyw berson sy'n gwneud dillad yn eich ardal chi? Fyddech chi'n prynu'n lleol er mwyn cefnogi'r gweithwyr lleol, er bod y dillad yn ddrutach?

**Ysgrifennu**

1. Dewiswch un o'r tasgau ysgrifennu canlynol:
    - Ar ôl gwneud gwaith ymchwil ar y we, dychmygwch eich bod yn newyddiadurwr sydd wedi mynd i weld safle **un** o'r damweiniau. Ysgrifennwch erthygl fer am eich profiad.

    - Ysgrifennwch gofnod dyddiadur rhywun sy'n gweithio mewn ffatri gwneud dillad. Gallwch ddewis eich gwaith – e.e. gwnïo, rheoli, goruchwylio. Cofiwch roi pwyslais ar eich **synhwyrau** wrth ysgrifennu.